CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712707
E-bost: caedu@dialstart.net

Gorffennaf 20fed, 2015

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod misol y Cyngor **nos Lun, Gorffennaf 27ain, 2015** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Sgwrs gan Seimon Jones am Daith Gerdded Ddigidol yn y Gymuned
3. Datgan Buddiant Personol
4. Cadarnhau Cofnodion (Mai 13eg a Mehefin 1af)
5. Ceisiadau Cynllunio (rhestr trosodd)
6. Materion yn Codi o'r Cofnodion:
   - i) 4a) Toiledau Cyhoeddus
   - ii) 4b) Biniau Baw Cŵn
   - iii) 4c) Swydd a Chytundeb Gwaith y Clerc
   - iv) 4ch) Foel Gron a Thir Comin Mynytho
   - v) 4d) Gwefan y Cyngor
   - vi) 4dd) Cae Chwarae Aber-soch
   - vii) 4e) Glanhau Afon Soch
   - viii) 4f) Meddygfa Aber-soch
   - ix) 4ff) Cheshire Lamont – 'Harbour Mews Development'
   - x) 4g) Gohebiaeth – Un Llais Cymru
   - xi) 4ng) Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch
   - xii) 4h) Canllawiau ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Cyfieithu
   - xiii) 4l) Gohebiaeth d) John D. Roberts – Archwilio Cyfrifon 2014 – 2015/Hacker Young
   - xiv) 4m) Uwch Swyddog Gorfodaeth Cynllunio – Bryn Cethin Bach, Aber-soch
   - xv) 4n) Cefnogaeth Gorfforaethol – Her Gwynedd
   - xvi) 7. Adolygu a Mabwysiadu Rheolau Sefydlog/Ariannol a Pholisïau
   - xvii) 8. Gohebiaeth b) Mrs. Jean Thomas – Tacsis
   - xviii) 8. Gohebiaeth c) Llythyr Ymddiswyddiad
   - xix) 8. Gohebiaeth g) Cyng. Wyn Williams – Banc NatWest
7. Materion Priffyrdd – Parcio ym Mhorth Neigwl; Rhaglen Waith mis Gorffennaf; Ffens ger Isfryn, Mynytho
8. Materion Hawliau Tramwy – Llwybr Arfordir Cim; Taith Gerdded Ddigidol, Llwybr Shanty, Penbennar
9. Gohebiaeth:

a) Un Llais Cymru – Strategaeth Hyfforddiant i Gymru; Cynhadledd Cymru; Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru); Neges gan Fwrdd Iechyd Gogledd Cymru; Nodyn Cefndir gan NALC ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 (Cymru'n Unig)
b) Llywodraeth Cymru – Bil Iechyd Cyhoedd (Cymru) – Darparu Toiledau sydd ar gael i'r Cyhoedd eu defnyddio
c) Oedolion, Iechyd a Llesiant – Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd
ch) Cylch yr Iaith – Cynllun Adnau
d) Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – *'Little Big Heads – Abersoch Concession'*
dd) Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant am ddim i Gynghorwyr Cymuned a Thref yng Nghaernarfon
e) Gwynedd Ni – Gwasanaeth Gwybodaeth i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Gwynedd
f) Came & Company – Adnewyddu Yswiriant y Cyngor
ff) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Adroddiad Blynyddol 2014-2015
g) Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol
ng) Cyngor Tref Cricieth – Gwrthwynebiad i Gais Cynllunio

10. Dyfarniadau Cynllunio
11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
12. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Medi 9fed, 2015

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS GORFFENNAF

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C15/0246/39/LL	**Disgrifiad Newydd –** Adeiladu pedwar tŷ preswyl â gwaith atodol yn cynnwys dull mynediad a thirlunio manwl (ail-leolir uned 13 o Ganiatâd C13/0736/39/LL â'r cais hwn ac, felly, y bwriad yn cynnwys tri ychwanegol), ynghyd â diwygiadau i gynnwys wal caergawell a pharcio llinellol – Manylion wal caergawell, parcio llinellol a thirlunio – **Harbour Hotel, Aber-soch – Derbyniwyd dyfarniad eisoes – Caniatawyd ag amodau**
2	C15/0575/39/LL	Addasiadau ac estyniadau i greu tŷ deulawr â gofod to gyda balconi blaen – **Tarenig, Lôn Engan, Aber-soch**
3	C15/0616/39/LL	Dymchwel tŷ gwesty presennol a chodi un annedd yn ei le – **Carisbrooke, Aber-soch**
4	C15/0617/39/LL	Cais ar gyfer dymchwel estyniadau ac adeilad allanol presennol, ynghyd â chodi estyniad i'r eiddo presennol a chodi tŷ newydd – **Deucoch Hotel, Aber-soch – Tynnwyd y cais yn ôl**
5	C15/0664/39/LL	Adeiladu estyniad unllawr at ochr dde yr eiddo – **Ger y Traeth, Bwlchtocyn**
6	C15/0666/39/CC	Tocio neu dorri coeden – **Haulfryn Cottage, Aber-soch**